## Cefndir

Fe wnaeth Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ddarparu ar gyfer sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil ('y Comisiwn').

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fydd y corff rheoleiddio a fydd yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch, dysgu oedolion yn y gymuned ac addysg seiliedig ar waith, prentisiaethau a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Mae Atodlen 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn nodi'r gofynion ar gyfer Bwrdd y Comisiwn, ymhlith pethau eraill. Bydd aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys aelodau cyswllt y gweithlu ac aelodau cyswllt y dysgwyr fel aelodau bwrdd cynghorol. Mae gan aelodau'r cynghorol y Bwrdd rôl bwysig o ran gwella'r mewnbwn democrataidd i benderfyniadau a llywodraethiant y Comisiwn drwy drefniant partneriaeth gymdeithasol. Mae Atodlen 1 o'r Ddeddf hefyd yn nodi'r broses ar gyfer penodi aelodau cyswllt i gynrychioli'r gweithlu addysg drydyddol a dysgwyr.

Cyn y gellir gwneud penodiadau o'r fath, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestrau o un neu fwy o undebau llafur (at ddiben penodi aelodau cyswllt y gweithlu) neu gyrff cynrychioli dysgwyr (at ddiben penodi'r aelod(au) cyswllt y dysgwyr) a bydd yr undebau llafur/cyrff cynrychioli dysgwyr rhestredig hynny yn gallu enwebu ymgeiswyr cymwys i'w hystyried ar gyfer eu penodi'n aelodau cyswllt o fwrdd y Comisiwn. Bydd y rhestrau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y rhestrau arfaethedig o undebau llafur a chyrff cynrychioli dysgwyr a all enwebu personau i'w hystyried ar gyfer eu penodi. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 21 Mehefin a 29 Medi 2023 a daeth 21 o ymatebion i law, a hynny'n bennaf gan sefydliadau a chyrff sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a oedd y rhestrau o undebau llafur a chyrff yn gywir ac yn ddigon cynhwysfawr neu a oedd angen eu diwygio.

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i adolygu'r ddogfen ymgynghori a'r wybodaeth ategol ar-lein ac ymateb i bob un o'r cwestiynau drwy e-bost, holiadur drwy'r post neu ffurflen ar-lein.

## Strwythur yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 6 o gwestiynau a oedd yn ymdrin â gwahanol agweddau ar y rhestrau arfaethedig o undebau llafur a chyrff cynrychioli dysgwyr, a chwestiwn agored i randdeiliaid allu codi unrhyw faterion cysylltiedig eraill. Roedd yn cynnwys cwestiwn penodol i ofyn barn rhanddeiliaid ynghylch a oedd yr undebau llafur a restrwyd yn gywir, cwestiwn ar y corff cynrychioli dysgwyr a enwyd, cwestiwn ynghylch cynrychioli dysgwyr, a hefyd cwestiynau ynghylch yr effaith ar gyfleoedd cyfartal yn dilyn penodiadau'r Bwrdd, ac ar y Gymraeg. Roedd dau gwestiwn yn gofyn i

ymatebwyr nodi p'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â gosodiad neu heb farn y naill ffordd na'r llall, ac roedd y gweddill yn gwestiynau agored.

**Ynglŷn â'r dadansoddiad**


At ddibenion dadansoddi, cadwyd yr holl ymatebion yn ddiogel. Lle y cytunodd yr ymatebwyr i hynny, cofnodwyd eu manylion ynghyd â manylion eu hymateb i'r ymgynghoriad.

Roedd y sylwadau a gafwyd yn ymdrin ag ystod o themâu, ac nid oedd pob un ohonynt o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn. Roedd nifer o awgrymiadau a sylwadau yn gysylltiedig â dull y Comisiwn ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr yn y dyfodol, a bydd y rhain yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn yn ddienw ar gyfer eu gwybodaeth a'u hystyriaeth.

Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Nid yw'n ceisio cofnodi pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr ond yn hytrach mae'n tynnu sylw at y themâu allweddol. Ceir crynodeb o brif themâu a phenawdau'r ymatebion yn y ddogfen hon sydd wedi helpu i lywio'r polisi.

**Cwestiwn 1:**

**A ydych yn cytuno â'r rhestrau o undebau? A oes undebau eraill yn gweithredu yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru y credwch y gellid eu hychwanegu at y rhestrau?**




**Rhestrau o undebau llafur**


- Dylid defnyddio'r term *Staff Cymorth Proffesiynol a Busnes* fel disgrifydd yn lle 'staff anacademaidd' i adlewyrchu natur y grŵp hwn yn well.
- O ran Staff Cymorth Proffesiynol a Busnes - UNISON, GMB ac Unite yw'r unig undebau llafur *cydnabyddedig* ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd undebau a sefydliadau eraill o'r farn y dylent gael eu hychwanegu at y rhestrau sy'n gymwys i enwebu ymgeiswyr i'w hystyried ar gyfer y rôl/rolau.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo mai dim ond yr undebau llafur hynny a gydnabuwyd at ddibenion bargeinio, hynny yw y rhai sy'n ymgynghori â'u haelodau ac sy'n gallu sicrhau newid yn y gweithle trwy negodi a thrafod â chyflogwyr yn y sector, ddylai fod ar y rhestr, yn hytrach na'r rhai sy'n 'cynrychioli' yn unig.
- Nid cynnwys disgrifydd ar gyfer rhai undebau, ond nid pob un, oedd y dull gorau ym marn rhai ymatebwyr. Dylid trin yr holl undebau llafur yr un peth yn hyn o beth yn y rhestr derfynol. Teimlwyd hefyd y gallai'r disgrifyddion hyn ddyddio'n gyflymach na'r rhestrau eu hunain.

**Nifer yr aelodau cyswllt**

- Ychydig iawn o'r undebau sy'n rhychwantu meysydd sylweddol o fewn y sector, ac nid oes yr un ohonynt yn cynrychioli addysg, hyfforddiant ac ymchwil ôl-orfodol yn gyffredinol. Teimlai sawl ymatebydd y dylai'r Comisiwn sicrhau cynrychiolaeth draws-sector a chynigiwyd cynrychiolwyr ychwanegol ym mhob un o'r tri chategori, gydag un ymatebydd yn gofyn am gynnwys siaradwr Cymraeg ar gyfer cynrychiolydd y dysgwyr. .

**Cwestiwn 2:**

**Ydych chi'n cytuno â'r corff cynrychioli dysgwyr a enwir? A oes cyrff cynrychioli dysgwyr eraill sy'n gweithredu yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru y credwch y gellid eu hychwanegu at y rhestr i gynrychioli dysgwyr?**




- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno mai Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) yw'r corff cynrychioli dysgwyr mwyaf priodol, gan ei fod yn cynrychioli buddiannau myfyrwyr addysg uwch, a rhai dysgwyr addysg bellach a phrentisiaid ar draws Cymru.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod nad oes corff llais y dysgwr cydnabyddedig amgen sy'n cynrychioli myfyrwyr chweched dosbarth a dysgwyr sy'n oedolion.
- Awgrymodd yr ymatebwyr y byddai angen i'r Comisiwn ddefnyddio dulliau ymgysylltu eraill oherwydd hyn i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol ar gyfer oedolion sy'n ddysgwyr a myfyrwyr chweched dosbarth.
- Cynigiwyd nifer o gyrff cynrychioli dysgwyr eraill i ehangu'r gynrychiolaeth ac roedd y rhain yn cynnwys y Coleg Nyrsio Brenhinol, Cymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored (OUSA), TUC Cymru, yColeg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg.

**Cwestiwn 3:**

**Sut allai'r Comisiwn glywed a chynrychioli barn a lleisiau'r dysgwr orau?**

**Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella cynrychiolaeth llais y dysgwr yn cynnwys:**

- Mae angen i'r Comisiwn sefydlu diwylliant o hyrwyddo llais y dysgwr yn gynnar yn ei gyfnod gweithredu, ac wedi hynny yn ei drefniadau llywodraethu.
- Dylai'r Comisiwn roi cyfleoedd i ddysgwyr gyflwyno eu safbwyntiau i'r Bwrdd ar faterion o ddiddordeb, a chyn unrhyw benderfyniadau a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar ddemograffeg penodol o ddysgwyr.

- Er bod gan lawer o rannau o'r sector eu cynrychiolwyr mewnol eu hunain ar gyfer dysgwyr, roedd sawl un yn teimlo y byddai'n heriol i un sefydliad gynrychioli lleisiau pob dysgwr ôl-16 (heb gyllid ychwanegol), gan nad yw llawer o ddysgwyr trydyddol o fewn cwmpas UCM Cymru.
- Mae'n bwysig sicrhau bod myfyrwyr 'anhraddodiadol' yn cael eu cynrychioli. Awgrymwyd y gallai Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid, TUC Cymru, Addysg Oedolion Cymru a'r Coleg Nyrsio Brenhinol gynrychioli eu priod feysydd.
- Dywedodd un ymatebydd fod ganddynt fforwm penodol ar gyfer addysg sy'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r myfyrwyr yn y proffesiwn hwnnw, a bod hyn felly'n eu galluogi i roi mewnwelediad i brofiadau uniongyrchol yr unigolion hyn a chyfoeth o wybodaeth yn ymwneud yn benodol â'r dysgwyr hynny.
- Hoffai darparwyr amgen wybod sut y bydd eu llais nhw a llais eu dysgwyr yn cael eu clywed ar y Bwrdd.
- Teimlai sawl ymatebydd y byddai cyflwyno Fforwm Llais y Dysgwyr, (sy'n cael ei dreialu gan CCAUC ar hyn o bryd) neu fecanwaith tebyg arall, yn galluogi'r Comisiwn i glywed lleisiau myfyrwyr a dysgwyr nad ydynt wedi'u cwmpasu gan UCM Cymru nac unrhyw gorff cydnabyddedig arall. Dylai cynrychiolaeth i ddysgwyr gael ei hymestyn hefyd i bwyllgorau eraill a chynnwys grwpiau ffocws cyfnodol o ddysgwyr o bob rhan o'r sector a allai fod wedi'u tangynrychioli.
- Cynigiwyd y gellid clywed am brofiadau dysgwyr o fewn colegau drwy ymgynghori â'u llysgenhadon, myfyrwyr-lywodraethwyr a chynrychiolwyr academaidd.
- Nododd sawl ymatebydd fod y nifer fach o gynrychiolwyr ar gyfer myfyrwyr/dysgwyr yn golygu na fydd yn bosibl i'r cynrychiolydd/cynrychiolwyr adlewyrchu profiadau bywyd unigolion o bob grŵp lleiafrifol; ac felly awgrymwyd bod y Comisiwn yn dibynnu ar fecanweithiau eraill hefyd, megis Fforwm Llais y Dysgwr, i sicrhau cynrychiolaeth o blith myfyrwyr, dysgwyr a phrentisiaid ledled Cymru o amrywiaeth o gefndiroedd.

**Cod Ymgysylltu â Dysgwyr**

- Fe wnaeth yr ymatebwyr ofyn bod yr ymgynghoriad ynghylch datblygu'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn cynnwys cwestiynau am y Comisiwn ei hun, yn ogystal â rôl darparwyr.
- Dylid gwneud ymchwil ar effeithiolrwydd y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

**Cyfleoedd/mecanweithiau i gymryd rhan**

- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r Comisiwn ymgynghori â rhanddeiliaid a dysgwyr i nodi'r prosesau mwyaf effeithiol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr. Yn yr un modd, dylid gwneud ymchwil i'r deunyddiau/ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau bod myfyrwyr a'u cynrychiolwyr yn gallu ymgysylltu'n effeithiol.
- Dylai'r Comisiwn weithio'n agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau bod lleisiau dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu clywed.

**Ymchwil gan y Comisiwn i farn a phrofiadau dysgwyr**

- Dylid ystyried rhaglen o ymchwil sylfaenol, a gomisiynir gan y Comisiwn, ar brofiadau dysgwyr sy'n gysylltiedig â dyletswyddau strategol y Comisiwn.
- Gallai'r Comisiwn glywed llais y dysgwr trwy ddatblygu arolwg blynyddol cenedlaethol i ddysgwyr. Gallai hyn gael ei ddatblygu o'r arolwg bodlonrwydd myfyrwyr a weinyddir yn y sector addysg uwch.
- Dylai'r Comisiwn nodi arferion gorau o ran sut mae myfyrwyr, dysgwyr, Undebau Myfyrwyr a sefydliadau wedi gweithio gyda'i gilydd ar lefel strategol i sicrhau newid cadarnhaol, ac ystyried sut y gall hyn lywio strwythurau llywodraethu'r Comisiwn.
- Dylai'r Comisiwn ymgymryd â rhaglen flynyddol o ymgysylltu uniongyrchol â dysgwyr a'u cynrychiolwyr fel rhan o'i gylch gwaith.
- Dylai hefyd wahodd cyflwyniadau blynyddol gan gyrff sy'n cynrychioli darparwyr ar y graddau y mae myfyrwyr yn hyderus bod y darparwr yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan fframwaith rheoleiddio ehangach y Comisiwn.

**Cwestiwn 4:**

**Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai cynnwys aelodau cyswllt ar y Bwrdd sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg a dysgwyr yn ei chael ar gyfle cyfartal. Yn eich barn chi, beth fyddai'r effeithiau ar gyfle cyfartal? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

- Soniodd un ymatebydd fod cynnwys aelodau cyswllt, gydag enwebiadau gan undebau llafur sydd â mandad democrataidd i gynrychioli gweithlu'r sector, yn sicrhau cyfle cyfartal.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwelliannau'n cynnwys y canlynol:

- Awgrymodd rhai ymatebwyr fod y Comisiwn yn defnyddio fforymau ychwanegol, fel Fforwm Llais y Dysgwr, i sicrhau cynrychiolaeth o blith myfyrwyr, dysgwyr a phrentisiaid ledled Cymru o amrywiaeth o gefndiroedd.
- Awgrymwyd y dylid talu aelodau o fforymau am eu cyfranogiad/amser er mwyn osgoi ymgysylltiad gan fyfyrwyr o gefndiroedd mwy cefnog yn unig a chreu rhwystrau i gyfranogiad.
- Dylid ystyried y nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddewis cynrychiolwyr ar gyfer y gweithlu a dysgwyr er mwyn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd o gefndiroedd amrywiol.
- Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai'r Comisiwn benodi mwy o aelodau cyswllt i ddarparu cynrychiolaeth lawnach ar gyfer y rhai â nodweddion gwarchodedig.
- Awgrymwyd bod angen i'r Comisiwn ddarparu cefnogaeth bellach i'r rhai a allai fod yn iau, neu'n dod o gefndiroedd amrywiol ac sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, fel eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac wedi'u grymuso i roi eu barn mewn cyfarfodydd.

**Cwestiwn 5:**

**Hoffem wybod eich barn ar yr effaith y byddai cynnwys aelodau cyswllt ar y Bwrdd sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg a dysgwyr yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

Awgrymodd yr ymatebwyr y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol drwy:

- Ddarparu gwasanaethau cyfieithu ym mhob cyfarfod.
- Ymgysylltu ac ymgynghori'n rheolaidd â darparwyr yn y sector.
- Penodi cynrychiolwyr ar gyfer staff a dysgwyr sy'n cynrychioli'r Gymraeg ac yn gweithio neu'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Penodi aelod cyswllt sy'n cynrychioli'r Gymraeg a'r system gofal iechyd.

**Cwestiwn 6:**

**Eglurwch hefyd sut y gallai'r polisi arfaethedig ar gynnwys aelodau cyswllt ar y Bwrdd i gynrychioli’r gweithlu addysg drydyddol ehangach a dysgwyr gael eu llunio neu eu newid yn eich barn chi fel eu bod yn cael effaith gadarnhaol neu'n cynyddu’r effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac nad ydynt yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Awgrymodd un ymatebydd fod yr undebau llafur a restrir yn cynrychioli gweithwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ac felly mae profiadau eu haelodau yn rhychwantu'r sbectrwm llawn o weithleoedd o ran y defnydd o'r Gymraeg a pholisi ar y Gymraeg.

**Roedd yr awgrymiadau ar gyfer cyfleoedd pellach yn cynnwys y canlynol:**

- Sicrhau bod cynrychiolaeth Gymraeg ar y Bwrdd.
- Penodi isafswm nifer i'r Bwrdd sy'n cynrychioli'r sector cyfrwng Cymraeg, neu o leiaf yn gyfarwydd â gofynion y sector hwnnw ac yn deall yr heriau.
- Cynnal trafodaethau'r Bwrdd drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Casgliad

Cawsom 21 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan y sector addysg drydyddol yng Nghymru. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion yn ofalus, ac maent wedi llywio'r rhestr ddiwygiedig o undebau llafur a chyrff cydnabyddedig. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod na fydd y gynrychiolaeth gan aelodau cyswllt ar y Bwrdd ynddo'i hun yn ddigonol i gasglu barn dysgwyr mewn sector mor amrywiol. Bydd yr awgrymiadau ar gyfer gwella'r gynrychiolaeth hon trwy ddulliau atodol yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn eu hystyried.

Mae'r gwaith ar y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn parhau, a bydd y sylwadau a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu rhoi i'r Comisiwn eu hystyried.

**Diwygiadau i'r rhestrau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi'u gwneud i'r rhestrau o undebau llafur a chyrff cydnabyddedig cymwys:

**Rhestr ar gyfer y gweithlu anacademaidd**

Ychwanegu at y rhestr bresennol drwy gynnwys**:**

- Y Coleg Nyrsio Brenhinol

**Rhestr ar gyfer cyrff cynrychioli dysgwyr:**

Ychwanegu at y rhestr bresennol drwy gynnwys**:**

- Cymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored (OUSA)
- Y Coleg Nyrsio Brenhinol
- Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid

yn ogystal ag UCM Cymru.

Tynnu Cymuned o'r rhestr ar gyfer Staff Cymorth Proffesiynol a Busnes.

**Atodiad 1 - Rhestrau Aelodau Cyswllt**

# Rhestrau

## Rhestrau o Undebau Llafur

Mae'r rhain yn undebau llafur cydnabyddedig yn y sector addysg drydyddol ar gyfer y grwpiau o weithwyr a nodwyd.

### Gweithlu academaidd addysg drydyddol

- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)
- Community
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT).
- Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) Cymru
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) Cymru

### Staff Cymorth Busnes a Phroffesiynol y gweithlu addysg drydyddol

- GMB
- Unite
- UNSAIN
- Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)

## Rhestr o gyrff cynrychioli dysgwyr

### Cyrff cynrychioli dysgwyr

- Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) Cymru
- Cymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored
- Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid
- Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)